**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig** **ARD 06-02 (p4)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 17 Ebrill 2002 |
| **Amser:** | 2.00pm tan 5.20pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

## Cefndir

1. Ar 27 Chwefror a 13 Mawrth 2002, bu'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn ystyried y modd y bu i Weinidogion y Cynulliad ymdrin â'r achos o glwy'r traed a'r genau. Amgaeir canfyddiadau drafft y ddau sesiwn craffu hwn.

## Y Pwyllgor i Weithredu

2. Gwahoddir yr Aelodau i gytuno ar ganfyddiadau'r Pwyllgor a gânt eu hanfon ar ôl hynny, ynghyd â thrawsysgrifau'r ddau gyfarfod, at dîm ymholiadau 'Gwersi a ddysgwyd' y DU dan Gadeiryddiaeth Dr. Iain Anderson.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

**Ebrill 2002**

---

## Ymchwiliad y Pwyllgor i'r modd yr ymdriniwyd â'r achos o glwy'r traed a'r genau – canfyddiadau drafft

### Datganoli pwerau iechyd anifeiliaid

Mae natur y diwydiant da byw heddiw yn golygu bod yn rhaid i’r camau a gymerir i reoli clefyd heintus megis Clwy’r Traed a’r Genau gael eu cydlynu ar lefel y DU. Serch hynny, dangosodd yr achosion yn 2001 yr angen i gamau gweithredu’r llywodraeth adlewyrchu amgylchiadau rhanbarthol a lleol. Roedd topograffi nodedig Cymru, strwythur a phatrymau ei diwydiant amaethyddol a bodolaeth y Cynulliad Cenedlaethol yn golygu, mewn sawl maes allweddol, y gellid fod wedi teilwra polisi a gwneud penderfyniadau’n fwy cyflym petai gan y Cynulliad fwy o gyfrifoldeb deddfwriaethol. Byddai datganoli pwerau iechyd anifeiliaid hefyd wedi helpu’r cyhoedd i ddeall atebolrwydd llywodraethol yng Nghymru ac wedi creu strwythur gwneud penderfyniadau cliriach a mwy effeithlon. Er enghraifft:

- gallai cynlluniau wrth gefn fod wedi adlewyrchu’n well amgylchiadau a oedd yn benodol i Gymru. Yn y dyfodol, byddai’r berthynas agosach sydd gan y Cynulliad â charfanau perthnasol yng Nghymru yn golygu y gellid diweddaru a gwella’r rhain yn haws;
- llwyddwyd i wneud penderfyniadau gweithredol yn gyflymach ac yn gliriach pan gawsant eu gwneud yn lleol gan ddefnyddio cynghorwyr lleol. Byddai rhoi mwy o hyblygrwydd i’r Cynulliad Cenedlaethol o ran deddfu hefyd yn caniatáu iddo wneud penderfyniadau a fyddai’n adlewyrchu anghenion ac amgylchiadau lleol penodol heb effeithio ar bolisi cenedlaethol;
- gellid fod wedi osgoi’r anghysondeb cyfansoddiadol a oedd yn bodoli yng Nghymru, lle’r ystyriwyd bod Gweinidogion y Cynulliad yn atebol am benderfyniadau nad oeddent yn gyfrifol amdanynt.

**Argymhelliad:** Dylid diwygio’r diffiniad o "Gweinidog" yn Neddf Iechyd Anifeiliaid 1981 drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor i roi’r un pwerau yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru â’r rhai sydd gan DEFRA ar hyn o bryd.

**Argymhelliad:** Dylid trosglwyddo adnoddau priodol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru iddo allu defnyddio’r pwerau newydd hyn.

## Cynlluniau wrth gefn

Nid oedd y cynlluniau wrth gefn a oedd yn bodoli yn ddigonol i ymdopi â’r achos o Glwy’r Traed a’r Genau ar y raddfa a welwyd yn 2001. Nid yw hyn yn syndod, o ystyried na fu achosion o’r clefyd yn y DU ers 1967, nac erioed ar raddfa o’r fath. Fodd bynnag, o ystyried y perygl o fewnforio cynnyrch wedi’i heintio a’r posibilrwydd y gallai’r haint ledu’n gyflym yn y diwydiant da byw heddiw, mae’n hanfodol rhoi cynlluniau wrth gefn cadarn ar waith.

**Argymhelliad:** Dylai cynlluniau wrth gefn:

- gael eu datblygu mewn ffordd gydlynol ar lefel Ewropeaidd, y DU, rhanbarthol a lleol;
- cwmpasu swyddogaethau pob haen o lywodraeth ac amrywiaeth eang o sefydliadau partner;

- dynodi’n glir pwy fydd yn gyfrifol ac yn atebol am ddelio â’r achosion o’r dechrau’n deg yn ogystal â materion gweithredol manylach eu cwmpas. Yng Nghymru y Cynulliad Cenedlaethol ddylai fod yn bennaf gyfrifol am ddelio â’r achosion ar y lefel weithredol;
- cael eu cwblhau ar ôl ymgynghori’n llawn â’r carfanau perthnasol;
- cael eu diweddaru’n flynyddol i adlewyrchu ffactorau deddfwriaethol, trefniadol, gwyddonol a diwydiannol newydd;
- cael eu defnyddio fel sail i ymarferion hyfforddi rheolaidd a fydd yn cynnwys pob corff ac asiantaeth y mae ei angen i gyfrannu at weithgareddau rheoli clefydau.

**Gwaharddiad ar symud da byw**

Efallai na fyddai Clwy’r Traed a’r Genau wedi lledu mor gyflym yn dilyn yr achosion cyntaf pe byddid wedi gosod gwaharddiad ar symud da byw ynghynt. MAFF/DEFRA oedd yn gyfrifol am hyn yn ystod 2001 ond Cynulliad Cenedlaethol Cymru fyddai’n gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch gwahardd symudiadau yn sgîl datganoli pwerau iechyd anifeiliaid fel y’u hargymhellir uchod.

**Argymhelliad:** Os bydd unrhyw achosion o Glwy’r Traed a’r Genau yn y dyfodol, bydd symud da byw yn cael ei atal ar unwaith. Dylai cynlluniau wrth gefn ddynodi’r gofyniad hwn a diffinio ar unwaith.

**Cyfathrebu a darparu gwybodaeth**

Yn ystod argyfwng tebyg i’r hyn a gafwyd yn 2001, ni ellir gorbwysleisio mor bwysig yw sicrhau bod haenau o lywodraeth, asiantaethau cyhoeddus, grwpiau diwydiant a’r cyhoedd yn cyfathrebu â’i gilydd. Roedd yn annorfod y byddai peth oedi a dryswch o ystyried cynifer yr achosion a’r ffordd y datblygodd pethau mor gyflym. Serch hynny, mae’n rhaid i’r ffordd o ddelio ag unrhyw achos ystyried yr angen ar i’r llywodraeth gyfathrebu’n glir, yn gyson ac yn gyflym â phawb yr effeithir arnynt. Yn rhannol, mae argymhellion blaenorol yn ymdrin â hyn drwy gynnig bod cynlluniau wrth gefn yn egluro pwy sy’n gyfrifol ac yn atebol amdanynt a bod pwerau iechyd anifeiliad yn cael eu datganoli i ofal Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gan mai awdurdodau lleol sy’n gyfrifol am roi llawer o’r ddeddfwriaeth berthnasol ar waith a’i gorfodi, maent felly’n chwarae rhan allweddol yn y broses o ddelio ag achosion o glefydau anifeiliaid.
**Argymhelliad:** Dylai’r Cynulliad Cenedlaethol, felly, ddatblygu strategaeth gyfathrebu gytûn gydag awdurdodau lleol ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru, cynrychiolwyr o ddiwydiant a chyrff allweddol eraill megis yr RSPCA i sicrhau bod negeseuon ac arweiniad yn cael eu trosglwyddo’n gyflym, yn glir ac yn gyson os bydd unrhyw achosion eraill yn y dyfodol.

Datblygodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig yn y Cynulliad strategaeth gyfathrebu â’r cyhoedd yn

ystod yr achos a oedd yn cynnwys taflenni ffeithiol, taflenni drwy’r post, canolfannau gwybodaeth, hysbysebion yn y wasg, darllediadau newyddion a chynadleddau dyddiol i’r wasg. Yn ogystal, roedd modd i’r cyhoedd gael gwybodaeth drwy gyfrwng llinellau cymorth a’r rhyngrwyd. **Argymhelliad:** Os bydd rhagor o achosion yn y dyfodol, dylid cymryd mesurau sydd yr un mor eang i gysylltu â ffermwyr a’r cyhoedd eto er mwyn lledaenu gwybodaeth bwysig yn gyflym, yn glir ac yn gyson.

### Brechu

O ystyried y rheolau rhyngwladol sy’n bodoli a’r ansicrwydd ymhlith gwyddonwyr ynghylch cynnal sero-brofion, cynllun difa oedd yr unig ddewis a oedd ar gael yng Nghymru. Profodd y polisi hwn, fodd bynnag, i fod yn un hynod ddrud ac rydym o’r farn y gellid defnyddio dulliau brechu "ffrwyno" ac "amddiffyn" os bydd unrhyw achosion eraill yn y dyfodol. **Argymhelliad:** Y dylid parhau i roi sylw i gynhyrchu mwy o frechlyn, datblygu profion cyflym i’w rhoi ar y fferm a sicrhau bod prawf gwahaniaethol sydd wedi’i ddilysu’n rhyngwladol ar gael i anifeiliaid a frechwyd ac yn cael ei gydnabod yn y rheolau ar gyfer masnach ryngwladol.

### Rheoli cig sy’n cael ei fewnforio

Mae’n glir nad oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru fawr o ber ei hun i dynhau’r rheolau yn erbyn mewnforio cynnyrch cig yn anghyfreithlon. Yn wir, fel aelod o’r Undeb Ewropeaidd, nid oes gan lywodraeth y DU bwerau i gyfyngu ar symud nwyddau’n rhydd o’r naill Aelod-Wladwriaeth i’r llall. Serch hynny, rydym yn pwyso ar y Gweinidog dros Faterion Gwledig i wneud ei orau glas i leihau’r perygl y gall mewnforio cig yn anghyfreithlon arwain at ragor o achosion.

**Argymhelliad:** I’r perwyl hwn dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gymryd pob cam rhesymol i wella diogelwch a gwybodaeth mewn porthladdoedd a meysydd awyr yng Nghymru. Dylai’r Gweinidog dros Faterion Gwledig barhau i bwyso am orfodaeth lem ym mhob porthladd, am reolau ar lefel yr UE i leihau’r perygl o fewnforio cig yng anghyfreithlon ac am i’r UE helpu gwledydd datblygol lle mae Clwy’r Traed a’r Genau yn endemig.

### Mynediad

Tynnodd yr achosion sylw at bwysigrwydd cerdded a chael mynediad i gefn gwlad i economi Cymru. Er nad oes unrhyw dystiolaeth bod cerddwr wedi lledu’r clefyd, dylai’r llywodraeth gymryd pob mesur rhesymol i leihau’r perygl o’i drosglwyddo, gan gynnwys cau llwybrau troed. Er hynny, mae’n holl-bwysig gwneud yn glir i bobl beth yw natur y peryglon sy’n bodoli a’r rhesymau dros gyfyngu ar

fynediad i gefn gwlad.

**Argymhelliad:** dylai cynlluniau wrth gefn ymgorffori modelau asesu risg i sicrhau y gellir gwneud penderfyniadau ynghylch cau ac ailagor llwybrau traed yn gyflym, yn gydlynol ac mewn ffordd y bydd awdurdodau lleol a'r cyhoedd fel ei gilydd yn ei deall.

**Gwaredu**

Bu'r dasg o waredu cyrff anifeiliad yn un o'r materion anoddaf i ddelio â hi yn ystod yr achos o Glwy'r Traed a'r Genau. Rendro oedd y dull a ddewiswyd i waredu'r cyrff ond cafodd llawer o ganolfannau rendro yn y DU eu defnyddio i ddiwallu anghenion ardaloedd megis Dyfnaint a Cumbria lle bu cynifer o achosion o'r clefyd. Er bod rhai canolfannau rendro wedi'u neilltuo ar gyfer anifeiliaid o Gymru, nid oedd digon ohonynt ac felly bu gan swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol ac eraill y dasg amhosib bron o ddod o hyd i dulliau addas eraill o waredu'r cyrff. Nid oedd yn bosibl eu claddu ar y fferm oherwydd cyfyngiadau daearegol ac roedd awdurdodau lleol a phreswylwyr yn erbyn defnyddio safleoedd tirlenwi, felly yr unig ddewis oedd llosgi'r cyrff ar y fferm neu eu gwaredu ar safleoedd mawr. Yn y dyfodol, dylid gwneud penderfyniadau o'r fath ar sail strategaeth waredu gytûn ac nid ar fyr rybudd a than bwysau.

**Argymhelliad :** dylai cynlluniau wrth gefn, gyda chytundeb awdurdodau a chymunedau lleol, nodi dulliau a safleoedd gwaredu i'w defnyddio os bydd achosion yn y dyfodol drwy eu blaenoriaethu, gan ganolbwyntio ar rendro, llosgi a chladdu'r cyrff ar safleoedd tirlenwi wedi'u rheoli. Dylid cynnal asesiad o beryglon safleoedd i'r amgylchedd cyn eu defnyddio.

**Adferiad economaidd**

Dangosodd yr achos yn 2001 mor fregus ac integredig yw natur yr economi wledig. Bu'r effaith ar fusnesau fferm yn amlwg ond roedd yr effeithiau ar yr economi wledig gyfan yn ei sgîl yn ddifrifol. Yn y dyfodol, dylid cydnabod yr effaith ehangach hon ar yr economi o'r dechrau'n deg a'i hystyried wrth roi ein hargymhellion cynharach ar waith ac wrth reoli achosion o'r clefyd.

Er na fydd arian cyhoeddus fyth yn ddigonol, ar y cyfan roedd busnesau gwledig yn croesawu'r swm a roddwyd iddynt a'r ffordd gyflym y rhoddwyd y pecyn adfer ar waith. Serch hynny, bu rhywfaint o feirniadu ar y fformwla a ddefnyddiwyd i ddosbarthu'r arian am beidio â thargedu'r ardaloedd hynny yr effeithiwyd arnynt fwyaf er y cydnabyddir i'r clefyd gael effaith y tu hwnt i'r ardaloedd lle bu achosion.

**Argymhelliad:** dylid ystyried yr effaith ehangach ar yr economi wledig wrth lunio cynlluniau wrth gefn ac wrth reoli unrhyw achosion yn y dyfodol.

**Argymhelliad:** os bydd unrhyw achosion tebyg eraill, dylid darparu pecynnau cymorth economaidd cyn gynted â phosibl a thargedu'r ardaloedd hynny yr effeithiwyd arnynt fwyaf hyd y gellir.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

**Ebrill 2002**